



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,
nos Fawrth, 19 Chwefror 2019 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room
on Tuesday, 19 February 2019 at 6.00pm.

Presennol/Present—Y Cynghorwyr/Councillors John Adams-Lewis (**yn y gadair/in the chair**), Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Siân Maehrlein, Steffan Morgan, Yvonne O’Neill, Trystan Phillips, Shan Williams.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyngh./Cllrs Clive Davies, Elaine Evans, Debra Griffiths, Catrin Miles

Croeso’r Cadeirydd / Chair’s welcome

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis bawb i’r cyfarfod.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed everyone to the meeting.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion. Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Observations
A190028	The Guildhall Market	Demolition of existing WC block and construction of new circulation extension to market building.	<i>Mae’r cyngor yn cefnogi’r cais.</i> The council supports the application.

Yn datgan diddordeb / Declaration of interest: Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis.

Cyflwyniad / Presentation

WPC Nia Jones, Gorsaf Heddlu Aberteifi / Cardigan Police Station

(Cysylltwyd â’r clerc am 4.25yp yn ymddiheuro am ei habsenoldeb oherwydd pwysau gwaith.

WPC Jones contacted the clerk at 4.25pm apologising for her absence due to pressure of work.)

Priffyrdd / Highways

(a) **Biniau sbwriel strydoedd canol y dref / Town centre litter bins.**

Dewis lleoliadau. Choice of location.

Yn dilyn trafodaeth fer, awgrymwyd trafod y mater ymhellach ym mhresenoldeb y Cyng. Clive Davies.

Following a short discussion, it was recommended to discuss the matter further in the presence of Cllr Clive Davies.

(b) **Mae cwynion wedi eu derbyn am nad yw’r cyngor sir yn casglu sbwriel o’r biniau canlynol: Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed a’r Maes Sgrialu.**

Complaints have been received from members of the public that the litter bins from the following locations are not emptied by the county council: King George 5th Playing Field and the Skateboard Park.

Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis ei fod wedi trafod y mater gyda Mr Gerwyn Jones, rheolwr strydlun trefol y cyngor sir; cadarnhawyd gan Mr Jones y byddai’r biniau yn cael eu gwacáu’n rheolaidd gan y cyngor sir.

Cllr Adams-Lewis stated that he had discussed the problem with Mr Gerwyn Jones, the county council urban street-scene manager; Mr Jones confirmed that the bins would be regularly emptied by the county council.

- (c) **Baw colomennod ar balmentydd y Stryd Fawr.**
Cytunwyd y byddai'r gost o dalu am wasanaeth adar ysglyfaethus oddeutu £4,000/£8,000 y flwyddyn yn afresymol a thu hwnt i gyllideb cyngor y dref.
Awgrymwyd ysgrifennu at adran amgylcheddol y cyngor sir yn gofyn iddynt ystyried y **broblem o ddifri gan ei fod yn fygythiad iechyd yn ogystal.**

Pigeon faeces deposited on the High Street pavements.

It was agreed that the cost of hiring the services of hawking at approximately £4,000/£8,000 per annum would be prohibitive and beyond the budget of the town council.

It was recommended to request the environmental department of the county council to consider methods of combating the problem due to possible health hazard consequences.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- (a) **Nos Iau, 21 Chwefror: Dangosiad cyntaf o ffilm "Meet the Fishermen" ar gyfer Rhwydwaith Clwstwr Bwyd Môr, yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr, Stryd y Cei am 6:30yh. Croeso i bawb. Mynediad am ddim.**
Thursday, 21 February: "Meet the Fishermen" – Seafood Cluster Network Premiere at Fisherman's Rest, Quay Street at 6:30pm. Everyone is welcome. Free admission.
- (b) **Cais oddi wrth dîm "Growing Potential" (BBC Cymru) i gwrdd â'r cynghorwyr ym mis Ebrill. Gan fod amserlen y cwmni yn anaddas, awgrymwyd bod aelodau yn cysylltu â'r clerc os ydynt yn dymuno trefnu cyfarfod.**
Application from the "Growing Potential" team (BBC Wales) to meet the councillors in April. As the timetable suggested by the company was restrictive, it was recommended that members contact the clerk if interested in attending a meeting.
- (c) **"Croeso Teifi": Cyflwyniad "O Syria i Gymru" gan Dr Mohammed Haj Ali (darlithydd yn Ysgol Feddygaeth Caerdydd).**
Bydd "Croeso Teifi" yn croesawu ei ail deulu o Syria i Aberteifi.
Anrhydeddwyd Cyngor Sir Ceredigion o gael ei ddewis o holl gynghorau'r Deyrnas Unedig i addysgu gwledydd Ewrop eraill am nawdd cymunedol.
Prynhawn Sul, 24 Chwefror yn Neuadd Eglwys y Santes Fair am 2:00 o'r gloch.
"Croeso Teifi": Presentation "Syria to Wales" by Dr Mohammed Haj Ali (lecturer at Cardiff University School of medicine and a doctor specialist in diabetes and endocrinology at the University Hospital of Wales).
"Croeso Teifi" will provide an update. The second family from Syria has arrived. Ceredigion County Council has received the honour of being chosen from all the UK councils to go to Brussels to teach other nations about community sponsorship.
Sunday, 24 February at St Mary's Church Hall at 2:00pm.
- (d) **Gan fod Canolfan Iechyd Ashleigh ar fin cau, derbyniwyd cais i symud y diffibriliwr o'r Ganolfan i leoliad arall yn y dref.**
Awgrymwyd bod y clerc yn cysylltu â'r Ganolfan am fwy o wybodaeth.
As Ashleigh Surgery is to close imminently, a request has been received to relocate the defibrillator from the Centre.
It was recommended that the clerk contacts the Centre for further information.

Gwahoddiadau i'r Maer / Invitations

16 Chwefror: Pantomeim "Red Riding Hood" gan Geidiau Aberteifi, Neuadd Goffa Llandudoch am 2:30yp a 6:00yh. Mae'r poster wedi ei arddangos yn yr hysbysfwrdd.

16 February: 2nd Cardigan Guides present "Red Riding Hood", St Dogmaels Memorial Hall at 2:30pm and 6:00pm. The poster has been displayed in the notice-board.

Er gwybodaeth / For information

Mawrth 1—Gorymdaith Gŵyl Ddewi o Neuadd y Dref i'r Castell am 1:00yp.

March 1—St Davids Day Parade from the Guildhall to the Castle at 1:00pm.

Ebrill 16: Cyflwyniad gan Ms Caroline Wilson (Green Dragon).

April 16: Presentation by Ms Caroline Wilson (Green Dragon).

Mai 14 am 7:00yh: Seremoni Sefydlu'r Maer yn Neuadd y Dref.

May 14 at 7:00pm: Mayor's Installation Ceremony at the Guildhall.

Mai 21: Cyflwyniad gan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dafydd Llywelyn.

May 21: Presentation by the Police & Crime Commissioner Dafydd Llywelyn.